



Mai 2016  
Rhif 2

## BETH SYDD I'W WNEUD?

### Bl 12

Sicrhau bod manylion eich lleoliad Profiad Gwaith gennym ni.

Gwirfoddoli i ehangu gorwelion

### Bl. 13

PRIFYSGOL - Anfon cais Cyllid Myfyrwyr; dewis llety

PRENTISIAETHAU - cadw golwg ar wefan Gyrfa Cymru

COLEG MENAI - ceisiadau i'w hanfon.

### COFIWCH!

CANLYNIADAU AS/A2  
18/8/16



@DavidHughes6ed

## LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i bawb sydd wedi ennill ysgoloriaeth i fynd i astudio yn y Brifysgol neu mewn Coleg Cerdd.

## Croeso!

Unwaith eto mae ein Chweched dosbarth wedi bod yn hynod o brysur, ac erbyn hyn mae cyfnod yr arholiadau wedi dechrau. Serch hynny mae digonedd o ymweliadau, gweithgareddau codi arian, codi ymwybyddiaeth a hwyl wedi bod yn rhan o'n bywyd bob dydd yn y Chweched. Gobeithio y cewch flas ar y darllen!

## Y NOSON AGORED

Cafwyd Noson Agored lwyddiannus iawn i ddarpar fyfyrwyr y Chweched dosbarth gyda dros 100 o ddisgyblion blwyddyn 11 a'u rhieni yn bresennol. Yn ystod yr wythnos honno, braf oedd gweld cynifer o'r Chweched presennol yn hybu a gwerthu eu pynciau yn y Ffair Ddewisiadau, ac yn cynorthwyo yn y Noson Agored.

## ARWEINWYR DIGIDOL



Rydym fel ysgol yn falch o benodi arweinwyr digidol am y tro cyntaf. Mi fydd Owain, Georgia, Maya, Alex, Derek a Mathew yn hybu prosiectau TGCh.

## PROSIECTAU

Mae hi bob amser yn braf cael cymryd rhan mewn amrywiol brosiectau, a'r tymor diwethaf buom yn brysur yn cyfrannu eto at brosiect Profi ar y cyd â Phrifysgol Bangor a Pontio. Diolch hefyd i Gisda am gydweithio â'r criw.

## CHWARAEON

Llongyfarchiadau hefyd i Glesni Tegid ac Alex Burgess ar eu llwyddiannau ym mabolgampau Eryri. Ymlaen i Gaerdydd rwan!

## YMWELIADAU

Unwaith eto trefnwyd nifer o deithiau i'r Chweched.

Bu disgyblion blwyddyn 12 TGCh yn ymweld â chwmni Am Dro.

Aeth criw Saesneg blwyddyn 13 i Grassmere.

Treuliodd y dosbarth Addysg Grefyddol ddeuddydd yn Llundain.

Cynrychiolwyd y 6ed yn Llundain ar Ddiwrnod Ynys Môn gan Mathew O'Hanlon Elms a Georgina Jones.

Bu rhai disgyblion Cemeg yn gweithio gyda Siemens.



Cafodd y dosbarth Celf fynd am dro i'r Tate yn Lerpwl.



## YMWELWYR

Croesawyd nifer helaeth o siaradwyr gwadd atom eto. Mae'n braf iawn cael cymaint o gyswilt â mudiadau lleol a chenedlaethol.

Menter Fachwen      Cyngor Môn  
Hosbis Dewi Sant      Rhowch waed  
Ambiwlans Awyr  
Cymunedau'n Gyntaf Môn  
Irfon Williams - Sesiynnau ar Iechyd Meddwl  
Phil Lynes - Cyllid Myfyrwyr Cymru  
Dr. Catrin Edwards a Dr Elin Royles o Adran Wleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth.

## CODI ARIAN

Cafwyd mwy o foreau coffi a stondinau cacennau, ac mae'r cacennau yn dal i werthu'n dda.

Codwyd arian i Sefydliad Prydeinig y Galon, Oxfam a Hosbis yn y Cartref.

Rydym hefyd yn falch o'n cyswilt â changen Pentraeth o'r NSPCC a buom wrthi'n brysur yn gwerthu ac yn bwyta wyau Pasg i godi arian i'r elusen.

## Y DYFODOL

**HOFFAI STAFF Y 6ED DDYMUNO'N DDA I BAWB SYDD YN GADAEL YR YSGOL I DDECHRAU AR GYFNOD NEWYDD.  
COFIWCH ALW MEWN I'N GWELD!  
PEIDIWCH Â BOD YN DDIEITHR!**

## CYFRANOGIAD I'R YSGOL A'R GYMUNED LEOL

Treuliodd criw bach o ddisgyblion fore difyr yn Ysgol y Borth yn beirniadu cystadleuthau Cymraeg a Chelf Eisteddfod yr ysgol.

Bu Thia, Ceri a Lois yn darllen Papur Menai i'r Deillion.



Mae'r Llysgenhadon Chwaraeon wedi bod yn brysur iawn ac wedi mwynhau yn arw yn gwirfoddoli gyda'r henoed.

Bu Llysgenhadon Oxfam yn codi ymwybyddiaeth ac arian i'r elusen trwy ymprydio noddedig a chynnal Ffair ffeirio Llyfrau a stondin gacennau

Trefnodd Llysgennad Yr Urdd - Shôn Alun Thomas bod gwirfoddolwyr ar gael i stiwardio yn Eisteddfodau Cylch a Sir yr Urdd.

Trefnwyd cwis llwyddiannus iawn i ddisgyblion a staff. Diolch o galon i Rib Ride am gyfrannu'r wobr - mae'r enillwyr yn edrych ymlaen yn fawr at gael profi adrenalin!

## AC YN OLAF...

**Llongyfarchiadau calonnog i Cordia ar eu llwyddiant anhygoel yn ennill Cân i Gymru ac wedyn yn ennill yn yr Wyl Ban Geltaidd yn Iwerddon. Da iawn chi!**

